

# Canllaw Perchennog Tir ar gyfer Giatiau, Chamfeydd a Strwythurau eraill ar Lwybrau Troed Cyhoeddus a Lwybrau Ceffyl

Nod Cyngor Gwynedd yw cael rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus sydd heb rwystrau os yn bosibl, ac sy'n hawdd i bawb eu defnyddio.

Yn ymarferol, mae llefydd ble mae perchnogion tir amaethyddol angen strwythurau fel giatiau a chamfeydd i reoli da byw. Mae'n rhaid i chi gael caniatâd Cyngor Gwynedd i godi unrhyw fath o strwythur ar neu ar draws hawl tramwy cyhoeddus.

Esbonia'r ddogfen hon beth yw'r gyfraith mewn perthynas â strwythurau ar hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'n esbonio pryd y cewch chi ganiatâd am strwythur, eich cyfrifoldebau a rai'r Cyngor. Ceir hefyd ganllaw ar sut i wneud cais i osod strwythur ar lwybr troed cyhoeddus neu lwybr ceffyl ar eich tir.

## **Pryd y caniateir camfeydd a giatiau ar hawliau tramwy cyhoeddus?**

Gellir ond codi camfa, giât neu rwystr arall ar hawl tramwy cyhoeddus os yw un ai'r

Map a'r Datganiad Swydddogol wedi cofnodi presenoldeb strwythur ar yr hawl tramwy cyhoeddus. Gall y Cyngor wirio hyn i chi.

NEU

fod y strwythur wedi ei awdurdodi gan Gyngor Gwynedd, neu Gyngor oedd yn ei ragflaenu, drwy ddefnyddio pwerau adran 147, Ddeddf Priffyrdd 1980.

Os nad yw strwythur wedi ei gofnodi ar y Map a'r Datganiad Swydddogol, neu os nad yw wedi ei awdurdodi gan y Cyngor yna mae'n rhwystr anghyfreithlon.

Mae adegau pan fo'r Cyngor yn gosod rhwystr ar lwybr troed cyhoeddus er diogelwch defnyddwyr cyhoeddus. Caiff hyn ei gyfiawnhau gan Ddeddf Priffyrdd, adran 66 a bod gan y Cyngor dystiolaeth sylweddol fod perygl i'r cyhoedd, yn cynnwys cefnogaeth gan y Cyngor Cymuned, yr heddlu lleol a thystiolaeth ffisegol ar y ddaear. Hefyd, mae angen rhoi ystyriaeth i hawliau defnyddwyr preifat.

## **Cael caniatâd ar gyfer strwythurau fel giât neu gamfa - Deddf Priffyrdd Adran 147**

Gall y Cyngor roi caniatâd i chi godi giât, camfa neu rwystr, os ydych angen rheoli da byw ar dir amaethyddol. Mae tir amaethyddol yn cynnwys tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, meithrinfeydd, tir a ddefnyddir i bori ac i goedwigaeth. Mae hyn hefyd yn cynnwys tir ar gyfer magu a chadw ceffylau.

Gellir ond rhoi caniatâd i chi os gellir cwrdd â darpariaethau adran 147 o'r Ddeddf Priffyrdd: sef os gellir cyfiawnhau fod y tir sy'n cael ei groesi gan lwybr troed cyhoeddus neu lwybr ceffyl yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth ac er mwyn ymgymryd â'r gwaith amaethyddol yma'n effeithlon fod angen strwythur i reoli

mynediad a symudiad anifeiliaid. Er enghraifft, byddai tir a ddefnyddir i bori defaid neu blanhigfeydd coedwigaeth fasnachol sydd angen cadw ceirw a chwingod allan, ill dau yn cwrdd â darpariaethau'r adran hon. Os nad yw'r tir yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, ac nad oes bellach angen rheoli da byw, yna dylid tynnu'r strwythur.

Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i strwythurau gael eu codi ar ffyrdd, Cilffyrdd sy'n Agored i Bob Traffig (BOATS) a Chilffyrdd Cyfyngedig.

### **Sut fath o strwythur?**

Bydd y Cyngor yn rhoi caniatâd i strwythurau sy'n hawdd eu defnyddio ar gyfer cymaint o bobl â phosibl, gan gydbwysu hyn gyda'r angen i'r strwythur fod yn un sy'n atal da byw. Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy hefyd yn gorfodi'r Cyngor i ystyried anghenion pobl anabl wrth awdurdodi strwythurau. Giatiau cerddwyr syml sy'n cau eu hunain fydd y dewis cyntaf, ac yna giatiau mochyn ac wedyn camfeydd.

### **Pwy sy'n gyfrifol am dalu am gamfeydd a giatiau?**

Gan fod camfa neu giât fel arfer yn cael ei chodi er budd perchennog y tir, felly chi fel yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am ddarparu'r strwythur ac edrych ar ei ôl.

Ar gyfer strwythurau newydd, mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am gostau'r strwythurau a'u gosod. Ble mae strwythur eisoes wedi ei awdurdodi bydd y Cyngor yn cyfrannu 25% tuag at gostau rhesymol atgyweirio neu newid cyn belled a bod hyn wedi ei gytuno ymlaen llaw gyda'r Swyddog Hawliau Tramwy yn yr Ardal. Yn ymarferol, mae'r cyfraniad yma yn debygol o fod yn daliad drwy ddarparu'r deunyddiau, ond nid yw hyn yn awgrymu fod y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am y strwythur yn y dyfodol.

### **Pwy sy'n edrych ar ôl y strwythur yn y tymor hir?**

Mae'r perchennog tir yn gyfrifol am edrych ar ôl y strwythur ac i sicrhau ei fod bob amser yn ddiogel ac yn hawdd i'w ddefnyddio.

Disgrifir hyn yn Adran 146, Deddf Priffyrdd 1980, sy'n gosod dyletswydd ar y perchennog/deilydd i 'gynnal y strwythur mewn cyflwr diogel ac i safon sydd ei angen i atal ymyrraeth afresymol gyda hawliau'r defnyddwyr.' Oherwydd nad yw'r strwythur yn rhan o'r briffordd mae'r cyfrifoldeb am atebolrwydd yn cael ei roi ar y perchennog gan Ddeddf Cyfrifoldeb Meddianwyr 1957.

Os yw perchennog yn gwrthod atgyweirio strwythur neu fod y gwaith atgyweirio yn anfoddfaol, yna mae'r gyfraith yn rhoi grym i'r Cyngor i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol ac i godi ar y perchennog.

### **Sut i wneud cais am awdurdodiad.**

Y cam cyntaf yw cysylltu â'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy. Gall ef/hi anfon pecyn cais i chi a gellir hefyd drafod eich cais a'r amgylchiadau. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys copi o'r amodau fydd yn gymwys i unrhyw awdurdodiad ac unrhyw amodau penodol all fod yn gymwys yn eich achos chi.

Dylid dychwelyd y ffurflen gais wedi ei chwblhau i'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

Os ydych yn cael caniatâd ar ôl ymgynghori gyda'r Cyngor Cymuned a grwpiau defnydd byddwch yn derbyn ffurflen ganiatâd i'w harwyddo gan ddychwelyd un copi i'r Swyddfa Ardal ac un i chi ei gadw. Wedyn dylech hysbysu'r Swyddfa Ardal pan fo'r strwythur wedi ei gwblhau a bydd wedyn yn cael ei archwilio. Os yw'n foddhaol yna bydd yr awdurdodiad yn dod yn ddilys. Os ydych yn peidio cwrdd ag unrhyw un o'r amodau yna bydd y Cyngor angen i'r strwythur gael ei dynnu.

Bydd cais yn cael ei wrthod os nad yw'n cwrdd â darpariaethau Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980. Bydd bob cais yn cael ei asesu i benderfynu ar y math mwyaf addas o strwythur sy'n briodol i ddefnydd y tir ac anghenion defnyddwyr y llwybr. Nid oes apêl yn erbyn gwrthodiad y Cyngor i roi caniatâd neu i osod amodau.